# Un Cyngor | One Council

## Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad | Our Core Values and Behaviours



## Cyflwyniad | Introduction

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Ein Pobol • Our People

SR-43372




# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan ein Prif Weithredwr | 3 |
| Pam defnyddio Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad | 4 |
| Cysylltu ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd | 5 |
| Sut Roedd Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad Wedi Cael ei Ddatblygu | 6 |
| Deall: Un Cyngor - Ein Fframwaith Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad | 7 |
| Pryd i Ddefnyddio Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad | 14 |
| Un Cyngor - Ein Fframwaith Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad | 17 |
| Rhagor o Wybodaeth ac Adnoddau | 25 |


Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council
Ein Pobol • Our People

# Rhagair gan ein Prif Weithredwr



Mae 'beth' rydym yn ei wneud i gyflawni ein gwasanaethau'n bwysig, ond mae 'sut' rydym yn gweithio yn gwneud gwahaniaeth go iawn; a hynny fel unigolion, fel timau ac ar draws y Cyngor.

Rydym wedi datblygu Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad i gefnogi ein strategaeth gorfforaethol, llywio sut rydym yn gweithio a sut y gallwn dyfu, fel y gall pob un ohonom, pa bynnag swydd ym mha bynnag wasanaeth, gael effaith gadarnhaol ar...

## Datblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n gilydd:
## **Un Cyngor, Un Weledigaeth, Un Llais**

*Wendy Walters*

Prif Weithredwr
Cyngor Sir Gaerfyrddin

# Pam defnyddio Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad?

**Mae Ein Hymddygiad yn ymwneud â sut rydym yn gwneud ein gwaith.**

Mae ymddygiad yn gwneud gwahaniaeth. Mae ein gweithredoedd a'n dull gweithredu yn effeithio ar bobl eraill: Mae sut rydym yn gweithio a sut rydym yn trin eraill yn effeithio ar sut rydym yn darparu gwasanaethau.

Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae wrth ddarparu ein gwasanaethau ar gyfer pobl Sir Gaerfyrddin, ac mae gan bob un ohonom rinweddau, sgiliau a phersonoliaethau gwahanol sy'n ein gwneud ni fel unigolion. Y gwahaniaethau hyn yw ein cryfder.

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council
Ein Pobol • Our People

**Mae sut rydym yn gweithio yn gwneud gwahaniaeth:**

***I'w gilydd, i'n gwasanaethau, i Ddatblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n gilydd***


**Mae hefyd yn bwysig bod gennym ddealltwriaeth glir, ar y cyd o sut rydym yn gweithio sy'n berthnasol i bob un ohonom;**

- Beth sy'n ddisgwyliedig o ran sut rydym yn gweithio (beth yw ystyr da)
- Cydnabod ein cryfderau a dathlu llwyddiannau
- Sut y gallwn ni ddatblygu ein hunain a'n gwasanaethau i'w llawn potensial
- Cydnabod a theimlo'n gyfforddus i herio ymddygiad nad yw o gymorth i'r modd rydym yn gweithio

# Cysylltu ein Gweledigaeth a'n Gwerthoedd

## Yr hyn yr ydym yn ei wneud...

## Sut rydym yn ei wneud...




- Datganiad Gweledigaeth y Cabinet
- Amcanion Llesiant*
- Strategaeth Gorfforaethol
- Blaenoriaethau Strategol

- Blaenoriaethau thematig a gwasanaeth
- Cynlluniau darparu gwasanaeth
- Amcanion adrannol

- Gwerthoedd Craidd
- 5 Ffordd o Weithio*

- Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad



**Mae Ein Hymddygiad yn disgrifio camau gweithredu a dulliau unigol y gall pawb eu cymryd i'n helpu i gyflawni ein nodau, dar-paru gwasanaethau gwych a thyfu.**

** Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015*

# Sut Roedd Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad Wedi Cael ei Ddatblygu

Myfyrio ynghylch yr hyn y mae ei angen arnom nawr, ac i'r dyfodol.

## Cam 1

### Myfyrio ynghylch Anghenion Gwasanaethau

**Rydym wedi adolygu:**

- Ein Gwerthoedd Craidd
- Proffiliau swyddi presennol (rhinweddau personol)
- Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Gofal Cymdeithasol

## Cam 2

### Myfyrio ynghylch Anghenion y Sefydliad

**Gwnaethom gynnwys blaenoriaethau allweddol o'r Strategaeth Gorfforaethol:**

- Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant
- Datgarboneiddio ac argyfwng hinsawdd
- Trawsnewid Sefydliadol
- Cydraddoldeb a Chynhwysiant

## Cam 3

### Datblygu'r Fframwaith

**Wedyn gwnaethon greu Ein Hymddygiad:**

- Gyda disgrifiadau clir a chadarnhaol
- Ar thema ein 6 gwerth craidd
- Wedi'i symleiddio i 20 ymddygiad
- Wedi'i drefnu i 3 lefel wahanol

## Cam 4

### Gorffen y Fframwaith

**Gwnaethom ymgynghori â thimau mewn gwahanol adrannau:**

- Er mwyn sicrhau bod cynnwys y fframwaith yn ddefnyddiol ac yn glir
- Gweithio gyda thimau i brofi'r fframwaith yn ymarferol

Wedyn gwnaethom ddiweddaru a chwblhau:

**Fframwaith Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad**

# Deall:
# Un Cyngor - Ein Fframwaith Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Ein Pobol • Our People

# 6 Gwerth Craidd



# 20 Ymddygiad



# 3 Lefelau



# 6 Gwerth Craidd




Dyma ein gwerthoedd craidd

Mae ein gwerthoedd wrth wraidd popeth a wnawn. Maent yn ein helpu i wneud y penderfyniad iawn ac yn sail i sut rydym yn gweithio.

Mae'r gwerthoedd craidd yn esbonio'r hyn sy'n bwysig i ni.




# 20 Ymddygiad

Mae Ein Hymddygiad y tu mewn i'n gwerthoedd craidd, mae'n esbonio'r hyn y mae ein gwerthoedd craidd yn ei olygu yn ymarferol;

Mae'r ymddygiadau hyn yn berthnasol i bob un ohonom - beth bynnag yw ein swydd neu ein cyfrifoldeb, a pha bynnag wasanaeth rydym yn gweithio ynddo.

**Mae Ein Hymddygiad yn:**

- ✓ golygu sut rydym yn ymddwyn yn bersonol ('sut')
- ✓ disgrifio ein hymddygiadau'n glir (gallwn eu deall)
- ✓ gweladwy (gallwn eu gweld neu eu clywed)

# 3 Lefelau

Mae'r ymddygiadau hyn yn berthnasol i bob un ohonom, ond gall yr hyn y mae pob ymddygiad yn ei olygu o ran eich rôl fod ychydig yn wahanol, yn dibynnu ar y gwaith rydych yn ei wneud a lefel eich cyfrifoldeb.

## Cyflawni

**Yn cyflawni gwasanaeth yn uniongyrchol.**

---

**Mae ein holl rolau yn cynnwys darparu gwasanaeth, felly mae'r ymddygiadau hyn yn berthnasol i bob un ohonom.**

## Llywio

**Llunio gwasanaeth drwy gyngor, cymorth a/neu reoli adnoddau neu bobl.**

---

**Gall pob un ohonom weithio tuag at yr ymddygiadau hyn.**

## Arwain

**Yn arwain gwasanaeth mewn swyddi uwch neu swyddi arwain.**

---

**Mae'r ymddygiadau hyn yn rhoi arweiniad a chyfeiriad i eraill, ac yn dylanwadu arnynt o ran sut y dylem weithio a darparu ein gwasanaethau.**

# Sut Mae'r Cyfan Yn Dod at Ei Gilydd

**Ein Gwerth Craidd -** beth sy'n bwysig i ddatblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n gilydd.

**Ein Hymddygiad** - beth mae'r gwerth craidd hwnnw'n ei olygu ar gyfer sut rydym yn darparu gwasanaethau a sut rydym yn trin pobl eraill yn y gwaith.

**Disgrifiad** - sut mae'r ymddygiad hwnnw'n edrych ar bob lefel wahanol.


**Lefelau** – sut mae'r ymddygiad hwnnw'n edrych wrth ichi symud ymlaen drwy'r fframwaith.

## Un Tîm

**Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gwella pethau**

Ein Hymddygiad

| | Cyflawni | Llywio | Arwain |
|---|---|---|---|
| **Ffocws Cwsmeriaid** | **Gofalu am lesiant cydweithwyr a llesiant eich hun** - Rydych yn gweithio'n dda fel rhan o dîm, gan ystyried eich llesiant eich hun ac eraill. | **Cydnabod a gwobrwyo cyfraniad eraill** - Rydych yn cydnabod cryfderau a'r potensial ym mhawb, gan eu hannog i ddysgu, i wneud cynnydd ac i ddatblygu. | **Hyrwyddo diwylliant o gydnabod a gwerthfawrogi** - Rydych yn creu diwylliant o werthfawrogiad, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cydnabod am y gwahaniaeth maent yn ei wneud. |
| **Datblygu cysylltiadau a gwasanaethau dwyieithog** | **Parodrwydd i rannu gwybodaeth** - Rydych yn rhannu eich gwybodaeth a'ch sgiliau. | **Annog eraill** - Rydych yn dangos ymddiriedaeth yn y tîm drwy annog, hyfforddi a grymuso i hyrwyddo cyfleoedd i eraill fynegi syniadau, a datblygu gwasanaethau. | **Hyrwyddo diwylliant o hyfforddiant personol** - Rydych yn datblygu sgiliau a phrofiad staff drwy hyfforddiant personol, mentora a darparu amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau. |
| **Parchu ein hamgylchedd** | **Addasu i newidiadau** - Gallwch addasu i newidiadau mewn gwaith, rôl neu amgylchedd, gan aros yn effeithiol ac yn bositif. | **Ennyn cytundeb ac ymrwymiad gan eraill** - Rydych yn addasu eich arddull bersonol ar gyfer gwahanol bobl neu sefyllfaoedd, i gyflawni ar y cyd nodau neu bwrpas a rennir. | **Gweithio ar draws ffiniau** - Rydych yn gwneud defnydd cadarnhaol o newid ac ansicrwydd i hyrwyddo ac annog cydweithio a rhannu ar draws adrannau, gwasanaethau a chyda partneriaid wrth weithio'n rhanbarthol. |




# Un Cyngor –

# Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad

# Pryd i Ddefnyddio Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Ein Pobol • Our People

# Defnyddio Ein Hymddygiad


**Bydd Ein Hymddygiad yn llywio sut rydym yn gweithio a sut rydym yn trin eraill; mae hyn yr un fath ym mha bynnag swydd rydych yn ei gwneud, ym mha bynnag wasanaeth rydych yn gweithio ynddo. Yn dibynnu ar eich rôl, gallwch ddefnyddio'r ymddygiadau mewn un ffordd, dwy ffordd neu ym mhob un o'r tair ffordd a ddangosir yma**

## Fel unigolion



Bydd Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad yn rhoi arweiniad o ran sut rydym yn gweithio gan ein helpu i ddeall 'beth yw ystyr da' yn ein rolau a sut y gallwn ddatblygu ymhellach. Bydd hefyd yn ein helpu i adnabod a theimlo'n gyfforddus i herio ymddygiadau nad ydynt o gymorth i'r ffordd rydym yn gweithio.

## Fel rheolwyr



Bydd Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad yn arwain y sgyrsiau rydym yn eu cael ag aelodau ein tîm am yr hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt. Byddwn yn defnyddio Ein Hymddygiad i gefnogi ein pobl i gyrraedd eu potensial a datrys unrhyw broblemau sy'n codi.

## Fel arweinwyr




Rydym yn dylanwadu ar eraill ac yn gosod esiampl drwy ddangos Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad yn glir ac annog eraill i wneud yr un peth, a hynny ym mhopeth a wnawn. Bydd Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad hefyd yn cefnogi'r gwaith o gynllunio, dylunio a chyflawni ein cyfeiriad strategol.

# Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad : Pryd y Gall Helpu

**Cynllunio ar gyfer Ein Hymddygiad**
- ✓ cynllunio ar gyfer y dyfodol

**Recriwtio i Ein Hymddygiad**
- ✓ denu a recriwtio pobl sy'n rhannu ein gwerthoedd




**Datblygu ein hymddygiad**
- ✓ datblygu ein hunain a'n gwasanaethau i'w llawn botensial

**Cefnogi Ein Hymddygiad**
- ✓ adnabod cryfderau
- ✓ dathlu cyflawniadau
- ✓ herio a datrys ymddygiad di-fudd

Bydd Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad yno ar bob cam i'n helpu i wneud gwahaniaeth:

- i'w gilydd
- i'n gwasanaethau
- i Ddatblygu Sir Gaerfyrddin gyda'n gilydd



# Un Cyngor – Ein Fframwaith Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council
Ein Pobol • Our People

# Un Tîm

## Drwy weithio gyda'n gilydd, byddwn yn gwella pethau

**Ein Hymddygiad**

| | Cyflawni | Llywio | Arwain |
|---|---|---|---|
| **Cydnabyddiaeth a chefnogaeth** | **Gofalu am lesiant cydweithwyr a llesiant eich hun** - Rydych yn gweithio'n dda fel rhan o dîm, gan ystyried eich llesiant eich hun ac eraill. | **Cydnabod a gwobrwyo cyfraniad eraill** - Rydych yn cydnabod cryfderau a'r potensial ym mhawb, gan eu hannog i ddysgu, i wneud cynnydd ac i ddatblygu. | **Hyrwyddo diwylliant o gydnabod a gwerthfawrogi** - Rydych yn creu diwylliant o werthfawrogiad, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu cydnabod am y gwahaniaeth maent yn ei wneud. |
| **Datblygu a hyfforddi** | **Parodrwydd i rannu gwybodaeth** - Rydych yn rhannu eich gwybodaeth a'ch sgiliau. | **Annog eraill** - Rydych yn dangos ymddiriedaeth yn y tîm drwy annog, hyfforddi a grymuso i hyrwyddo cyfleoedd i eraill fynegi syniadau, a datblygu gwasanaethau. | **Hyrwyddo diwylliant o hyfforddiant personol** - Rydych yn datblygu sgiliau a phrofiad staff drwy hyfforddiant personol, mentora a darparu amrywiaeth o gyfleoedd a phrofiadau. |
| **Addasu i newid** | **Addasu i newidiadau** - Gallwch addasu i newidiadau mewn gwaith, rôl neu amgylchedd, gan aros yn effeithiol ac yn bositif. | **Ennyn cytundeb ac ymrwymiad gan eraill** - Rydych yn addasu eich arddull bersonol ar gyfer gwahanol bobl neu sefyllfaoedd, i gyflawni ar y cyd nodau neu bwrpas a rennir. | **Gweithio ar draws ffiniau** - Rydych yn gwneud defnydd cadarnhaol o newid ac ansicrwydd i hyrwyddo ac annog cydweithio a rhannu ar draws adrannau, gwasanaethau a chyda partneriaid wrth weithio'n rhanbarthol. |

# Cwsmeriaid yn Gyntaf

## Gweithio i wella bywydau pobl yn ein cymuned.

Ein Hymddygiad

| | Cyflawni | Llywio | Arwain |
|---|---|---|---|
| **Ffocws Cwsmeriaid** | **Canolbwyntio ar anghenion y unigolyn** - Rydych yn chwilio am farn amryw unigolion sy'n cael ein gwasanaethau, i wella ein darpariaeth ddwyieithog. | **Ystyried ystod eang o faterion** - Rydych yn cynllunio anghenion gwasanaeth ymlaen llaw, gan ystyried ffactorau ehangach ac effaith hirdymor penderfyniadau. | **Hyrwyddo diwylliant lle mae cwsmeriaid yn dod yn gyntaf** - Rydych yn datblygu, yn cyflawni ac yn gwerthuso cynlluniau strategol, gan gydbwyso pwysau tymor byr â nodau tymor hir, yn unol â gweledigaeth y Cyngor, sy'n mynd i'r afael ag anghenion gwasanaeth amrywiol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| **Datblygu cysylltiadau a gwasanaethau dwyieithog** | **Sefydlu perthynas dda ag unigolion** - Rydych yn sefydlu parch a ffydd ar sail gonestrwydd a dibynadwyedd, gan feithrin perthynas barhaol ag eraill. | **Nodi cyfleoedd** - Yn ymchwilio i ddulliau effeithiol o ddatblygu gwasanaethau dwyieithog a gaiff effaith gadarnhaol. | **Arwain gwasanaeth sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog y sir** - Rydych yn sicrhau bod y Gymraeg yn ganolog i'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud, gan ddarparu gwasanaeth dwyieithog i unigolion ac i dimau. |
| **Parchu ein hamgylchedd** | **Defnyddio adnoddau'n ofalus** - Rydych chi'n defnyddio ein hadnoddau yn effeithiol. | **Parchu'r amgylchedd** - Rydych chi'n ystyried ac yn annog ein cyfrifoldebau o ran ein heffaith ar yr amgylchedd naturiol a newid hinsawdd. | **Cefnogi ein hamgylchedd** - Rydych yn sicrhau bod penderfyniadau'n cynnal neu'n gwella ein hamgylchedd naturiol bioamrywiol, gan gefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. |

# Uniondeb

## Bod yn onest a cheisio gwneud y peth iawn bob amser.

| Ein Hymddygiad | Cyflawni | Llywio | Arwain |
|---|---|---|---|
| **Arwain a Dirprwyo** | **Dilyn cyfarwyddiadau priodol** - Rydych chi'n dilyn prosesau, a chanllawiau, gan herio mewn ffordd gadarnhaol os bydd mater yn codi. | **Dirprwyo gwaith yn briodol ac yn deg** - Rydych yn blaenoriaethu eich gwaith eich hun a gwaith eraill yn deg, ar sail cryfderau pobl, ac yn darparu adborth clir ac amserol. | **Rhoi cyfeiriad clir** - Rydych yn pennu ac yn cynnal cyfeiriad clir a chadarnhaol, gyda blaenoriaethau a chanlyniadau â ffocws amlwg sy'n cael eu cyfathrebu'n glir i'r timau. |
| **Gwneud penderfyniadau** | **Deall ffiniau proffesiynol** - Rydych chi'n deall pan fydd rhywbeth y tu allan i'ch rôl a phryd i gyfeirio at eraill. | **Gwneud penderfyniadau cyflym a chlir** – Rydych yn cymryd cyfrifoldeb dros bobl a phenderfyniadau a allai olygu gwneud dewisiadau anodd neu gymryd risgiau ystyriol gan roi cyfeiriad clir. | **Hyrwyddo diwylliant o fod yn agored** - Rydych yn hyrwyddo tryloywder ynghylch penderfyniadau ac yn creu diwylliant lle mae eraill yn teimlo eu bod yn gallu herio'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. |
| **Mynd i'r afael â risg** | **Cydnabod risgiau** - Rydych yn cynllunio, cydnabod a gweithredu mesurau i ymateb i'r risg i chi a/neu i eraill achos ymddygiadau neu sefyllfaoedd. | **Hyrwyddo ymddygiadau diogel** - Rydych yn hyrwyddo a sicrhau bod gwerthoedd ymddygiad, iechyd a diogelwch ac arferion diogelu yn arwain gwaith tîm. | **Hyrwyddo diwylliant o weithio'n ddiogel** - Rydych yn sefydlu ac yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol lle mae iechyd, llesiant, arferion gweithio diogel a diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb. |
| **Cynhwysiant a Gwerthoedd** | **Trin pobl yn deg** - Rydych yn trin pawb yn deg, gan ddangos parch a sensitifrwydd at wahaniaethau a dewis ieithyddol (Cymraeg neu Saesneg). | **Hyrwyddo ac amddiffyn cyfleoedd cyfartal & dwyieithrwydd** - Rydych yn hyrwyddo amrywiaeth, cynhwysiant a'r Gymraeg, gan annog pobl i gyfrannu a gwneud iddynt deimlo wedi'u gwerthfawrogi. | **Dangos safonau ymddygiad da** - Rydych yn esiampl dda o ran gonestrwydd, ymddiriedaeth a safonau ymddygiad, gan arwain ac atgyfnerthu diwylliant cynhwysol lle mae amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi, a lle mae allgáu, bwlio a gwahaniaethu yn annerbyniol. |

# Rhagori

## Cyflawni hyd eithaf ein gallu a chwilio am ffyrddgwell o wneud pethau.

Ein Hymddygiad

| | Cyflawni | Llywio | Arwain |
|---|---|---|---|
| **Dysgu a datblygu** | **Parodrwydd i ddysgu a datblygu** - Rydych chi'n chwilio am ddysgu newydd ac am ffyrdd newydd o ddatblygu eich hun a'ch sgiliau Cymraeg. | **Bod yn esiampl dda ar gyfer datblygu a dysgu** - Rydych yn dangos ymrwymiad personol i ddysgu ac yn annog eraill i ystyried cyfleoedd i ddysgu. | **Hyrwyddo diwylliant o ddysgu** - Rydych yn mynd ati mewn modd strategol i nodi a mynd i'r afael â gofynion sgiliau yn awr ac yn y dyfodol, gan alluogi diwylliant o ddysgu parhaus a chynllunio olyniaeth. |
| **Arloesi** | **Ystyried gwneud pethau'n wahanol** - Rydych yn gofyn cwestiynau ac yn chwilio am ffyrdd gwell a/neu newydd o wneud pethau, gan awgrymu gwelliannau. | **Llunio mentrau newid effeithiol** - Rydych yn dylunio prosesau a systemau sy'n cefnogi newid cadarnhaol, yn diogelu dysgu ac yn gwella gwasanaethau. | **Hyrwyddo diwylliant o arloesi** - Rydych yn ymgorffori diwylliant o arloesi a meddwl creadigol i ysgogi gwelliannau i'r gwasanaeth, gan rymuso timau i annog datblygiad parhaus. |
| **Dadansoddi** | **Cynnig amrywiaeth o atebion i broblemau** - Rydych yn ymdrin â phroblemau'n gadarnhaol a chanfod ffyrdd o nodi atebion addas. | **Dadansoddi data i gefnogi penderfyniadau** - Rydych yn ymchwilio a dadansoddi gwybodaeth a data rhifiadol ac ysgrifenedig o ystod o ffynonellau er mwyn llywio penderfyniadau seiliedig ar dystiolaeth. | **Cydnabod y darlun ehangach** - Rydych yn chwilio am ragor o wybodaeth neu ddealltwriaeth o broblem, gan gydnabod sut y gallai un mater fod yn rhan o system fwy a dod i gasgliadau rhesymegol. |

# Cymryd Cyfrifoldeb

## Cymryd perchnogaeth dros ein camau gweithredu a bod yn atebol.

Ein Hymddygiad

| | Cyflawni | Llywio | Arwain |
|---|---|---|---|
| **Cymryd camau** | **Bod yn flaengar** - Rydych yn hyderus yn datblygu camau ac yn gweithio o'ch pen a'ch pastwn ei ch hun. | **Gosod amcanion clir** - Rydych yn datblygu gweledigaeth gadarnhaol gydag eraill ac yn cymryd risgiau cytbwys, gan droi hyn yn gamau ymarferol i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. | **Dangos atebolrwydd** - Rydych yn atebol ac yn cymryd cyfrifoldeb llawn am brosiectau a phobl i sicrhau bod perfformiad economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol y sefydliad yn cael ei gyflawni. |
| **Rheoli perfformiad** | **Rheoli perfformiad eich hun** - Rydych yn ystyried eich perfformiad yn onest, gan nodi beth gellid ei ddatblygu neu newid yn y dyfodol. | **Rheoli perfformiad pobl** - Rydych yn ystyried anghenion unigolion, gan roi sylw i berfformiad yn gyflym a theg, a thrin camgymeriadau fel cyfleoedd dysgu. | **Hyrwyddo diwylliant o ymddiriedaeth** - Rydych yn creu amgylchedd lle mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i wneud penderfyniadau, gan annog syniadau, gwelliannau a chymryd risgiau mewn modd pwyllog. |
| **Canlyniadau o safon** | **Monitro eich gwaith eich hunain a chynnal ansawdd** - Rydych chi'n sicrhau bod gwaith yn gywir ac yn ddi-wall. | **Gweithio i sicrhau canlyniadau o safon** - Rydych yn gwella safon y gwasanaethau a ddarperir yn barhaus ac yn sefydlu perthynas ag unigolion. | **Rhoi gwerth am arian** - Mae gennych farn eang ynghylch gwerth, gan gydnabod effeithiau a chostau 'cudd' neu allanol o fewn y system a datblygu'r rhain i wneud penderfyniadau er mwyn cael canlyniadau o safon. |
| **Dangos cyfrifoldeb** | **Bod yn gyfrifol am dasgau** - Rydych yn atebol am yr hyn rydych wedi addo'i gyflawni, gan gynnwys tasgau a ddirprwywyd i eraill. | **Cymryd cyfrifoldeb dros gamau gweithredu** - Rydych yn defnyddio eich crebwyll a chymryd ymagwedd ystyriol at sefyllfaoedd a thasgau wrth wneud penderfyniadau a/neu ddarparu cyngor. | **Hwyluso'r gwasanaeth a ddarperir** - Rydych yn dyrannu adnoddau yn deg ac yn gwneud penderfyniadau strategol priodol i gefnogi'r broses o ddarparu'r gwasanaethau. |

# Gwrando

## Gwrando ar ein cymunedau, ein partneriaid, a'n cydweithwyr i wella.

**Ein Hymddygiad**

| | Cyflawni | Llywio | Arwain |
|---|---|---|---|
| **Cyfathrebu ag eraill** | **Cyfathrebu'n dda ag eraill** - Rydych yn cyfleu syniadau mewn ffordd glir er mwyn sicrhau bod eraill yn gallu deall ac yn eu dewis iaith. | **Datblygu rhwydweithiau effeithiol** - Rydych yn creu a chynnal perthynas waith gadarnhaol broffesiynol a llawn ymddiriedaeth â phobl yn y gwasanaeth a'r tu allan iddo. | **Cynrychioli'r sefydliad** - Rydych yn dangos ymwybyddiaeth wleidyddol a diwylliannol, gan adlewyrchu ein gwerthoedd drwy gyfathrebu â gwahanol gynulleidfaoedd gyda gonestrwydd, uniondeb, didueddrwydd a gwrthrychedd, i feithrin ymddiriedaeth a sicrhau ymrwymiad eraill. |
| **Deall eraill** | **Gwrando a myfyrio** - Rydych yn gwrando er mwyn deall safbwyntiau ac anghenion eraill, gan ymateb yn sensitif a gwirio dealltwriaeth lle bo angen. | **Rheoli gwrthdaro** - Rydych yn hwyluso trafodaethau adeiladol ac yn gweithio gydag amrywiaeth o bobl i ddod i gytundeb. | **Deall a dylanwadu** - Rydych yn defnyddio hunanymwybyddiaeth a lefelau uchel o ddealltwriaeth o anghenion eraill i ddylanwadu ar gytundebau strategol a chydweithredol lefel uchel a'u trafod. |
| **Gwrando ar eraill** | **Agwedd gadarnhaol at waith** - Rydych yn dangos brwdfrydedd dros y gwasanaeth rydych yn ei ddarparu a gwella eich gwaith. | **Gwrando i wella** - Rydych yn sefydlu ac yn cynnal ffyrdd o gynnwys ystod amrywiol o gydweithwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid wrth ddatblygu gwelliannau. | **Annog cyfranogiad** - Rydych yn arwain ar draws ffiniau, gan ystyried gwasanaeth cyhoeddus fel un gymuned a chynnwys cymunedau a sefydliadau partner wrth wneud penderfyniadau. |

# Rhagor o Wybodaeth ac Adnoddau

## Un Cyngor -
## Ein Gwerthoedd Craidd a'n Hymddygiad

mewnrwyd/ein-pobl/gweithio-i-ni

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council
Ein Pobol • Our People